**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**ADRAN 23 DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

## CROESFAN ARFAETHEDIG I GERDDWYR AR PRINCE OF WALES AVENUE, Y FFLINT

**RHODDIR RHYBUDD** drwy hyn fod Cyngor Sir y Fflint, drwy arfer ei bwerau dan Adran 23 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig;

a) Gosod Croesfan Cerddwyr Sebra yn y lleoliad fel y disgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

**Rheswm dros y Cynnig:** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi Prince of Wales, y Fflint fel lleoliad addas i osod cyfleuster Croesfan sebra. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i weithredu cyfleuster croesfan barhaol yn y lleoliad hwn, fel rhan o Gynllun Teithio Llesol ehangach, a fydd yn annog a chynorthwyo siwrneiau cynaliadwy Ysgol lleol. Bydd hefyd yn gwasanaethu'r gymuned ehangach trwy ddarparu man croesi diogel y tu allan i oriau ysgol.

Bydd y gwaharddiadau arferol yn erbyn cerbydau yn stopio, aros, llwytho a dadlwytho ar y gerbydffordd o fewn yr ardaloedd â llinellau igam ogam ar naill ochr y groesfan yn berthnasol.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad, y cynlluniau sy'n dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt gan y cynnig, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig y Croesfan, yn ystod oriau agor arferol yng Nghanolfan Sir y Fflint yn Cysylltu, Stryd yr Eglwys, y Fflint, CH6 5BD. Fe fydd y dogfennau hefyd ar gael ar ein gwefan: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Streetscene/Traffic-regulation-orders.aspx neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy e-bostio transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn neu e-bost i transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk erbyn dydd Gwener 27 Chwefror 2026 gan ddyfynnu cyfeirif SS/TRO/JB/POWF/Zebra


## ATODLEN

### Gosod Croesfan Sebra Newydd i Gerddwyr

**Prince of Wales Avenue, y Fflint** – o bwynt 37 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd gyda Borough Grove.

Dyddiedig y 6 Chwefror 2026

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Depo Alltami,
Ffordd yr Wyddgrug,
Alltami, Yr Wyddgrug. CH7 6LG




CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

Alltami Depot, Alltami, Mold, CH7 6LG
Depo Alltami, Alltami, Yr Wyddgrug. CH7 6LG

Streetscene

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY: NGW

CHECKED BY: LS

SCALE: 1: NTS @ A3

NAT. GRID REF: 327837 363930

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION |
|---|---|---|

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |

# Prince of Wales Avenue
## Y FFlint / Flint

Croesfan Sebra Arfaethedig a Symud Safle'r Safle Bws

Proposed Zebra Crossing and Re-location of Bus Stop (Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER

| HT/26/CORF | 101 | P1 |
|---|---|---|